**Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion**

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0201(CEL) a gyhoeddwyd gan John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, ar 29 Ionawr 2008**

**At Kirsty Williams:**

Yn ystod y cyfarfod llawn ar 23 Ionawr, addewais y byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am ddatblygiadau sy'n digwydd i wella effeithiolrwydd addysg bellach yng Nghymru, ac amlinellu'r hyn sy'n cael ei wneud ar gyfer datblygiad proffesiynol tiwtoriaid addysg bellach.

"Effeithiolrwydd addysg bellach"

Mae ystod o fentrau wedi cael eu cynnal i sicrhau gwelliannau sylweddol i addysg bellach yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:-

• Cyflwyno'r System Genedlaethol Cynllunio a Chyllid (NPFS)

• Sicrhau cydraddoldeb cyflog rhwng addysg bellach a'r sector ysgolion

• Y Cynllun Buddsoddi mewn Ansawdd

• Sicrhau arian Ewropeaidd sylweddol i ategu'n buddsoddiad

Mae'r mentrau hyn wedi darparu cyllid refeniw ychwanegol i Sefydliadau Addysg Bellach, ac maent wedi arwain ar lefelau cyrhaeddiad uwch ac ansawdd gwell (yn ôl mesuriadau adroddiadau Estyn ac Adolygiadau Perfformiad Darparwyr).

Mae'r strwythur APADGOS newydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr agenda effeithiolrwydd yn y sector ôl-16, a bydd tîm penodedig yn gweithio i hyrwyddo a rheoli'r Strategaeth Effeithiolrwydd O^l-16.

Bydd y tîm yn cefnogi gwaith yr Is-adran Datblygu Darparwyr i hyrwyddo'r Strategaeth Effeithiolrwydd O^l-16 ar draws yr Adran a chyda rhanddeiliaid er mwyn sefydlu egwyddorion y fenter i sicrhau y caiff ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

"Datblygu tiwtoriaid addysg bellach"

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid bod gan bawb sydd am ddysgu mewn coleg addysg bellach Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) (AB). Cyflwynwyd y gofyniad hwn yn 2002. Mae cyfanswm o oddeutu £1.2 miliwn yng nghyllideb 08/09 i barhau i ariannu'r ddarpariaeth hon. Ar ben hyn, rydym wedi cymeradwyo cynllun bwrsari £1.5m eleni i helpu i gefnogi myfyrwyr sydd am astudio ar gyfer cymhwyster TAR (AB). Ein bwriad yw annog graddedigion o safon i addysgu yn ein colegau addysg bellach yng Nghymru. Rydym felly'n gwerthuso effaith darpariaeth y bwrsari yn y flwyddyn academaidd gyfredol. Rydym wedi arwyddo contract gyda Standards Verification UK er mwyn iddynt barhau i ardystio'r cymhwyster TAR (AB) hwn.

Rydym yn parhau i roi mesurau ar waith i wella ansawdd addysgu a dysgu yn ein sector dysgu gydol oes ac rydym yn cydnabod yr angen i wella safonau addysgu a chyrhaeddiad ym mhob lleoliad dysgu, gan werthfawrogi a chefnogi ymarferwyr.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiwn.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0174(FPS) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Chwefror 2008**

**At Mark Isherwood:**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y pwyntiau a godoch am gyllidebau'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn ystod cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar 23 Ionawr.

Fe sonioch am bryderon y byddai effaith andwyol ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sgil newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyfalaf a Refeniw Tân ac Achub yn y Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio dros y tair blynedd, a holoch a fyddai hyn yn effeithio ar eu gallu i fynd i'r afael â marwolaethau yn sgil tân yn eu hardaloedd.

Caiff cyllid ar gyfer cyflenwi gwasanaethau rheng flaen y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ei ddarparu gan yr awdurdodau lleol drwy'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, ac nid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru: Mae'r newidiadau rydych wedi'u nodi yn gysylltiedig â chyllid penodol i'r Awdurdodau Tân ac Achub i ariannu prosiect cyfathrebu Firelink, sy'n cael ei gyflwyno i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu'r proffil gwariant presennol rhwng gwariant refeniw a chyfalaf ar y contract hwn ac ni ydynt yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau rheng flaen o gwbl.

Rydym hefyd yn darparu cyllid uniongyrchol ar gyfer ystod o brosiectau penodol ar gyfer gweithgareddau diogelwch cymunedol ac atal tân. Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn derbyn bron £700,000 yn y flwyddyn ariannol hon i dalu am brosiectau diogelwch tân cymunedau a phrosiectau atal tân eraill. Mae hyn yn cynnwys dros £300,000 i ddarparu synwyryddion tân ac offer diogelwch tân eraill i gefnogi'r gwaith o archwilio diogelwch tân mewn cartrefi; £200,000 tuag at ddatblygu gorsaf dân gymunedol yn y Rhyl; a chefnogaeth i weithgareddau ieuenctid a chyllid i Dimau Atal Tanau Bwriadol Gogledd Cymru.